



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd



**Canllaw cyflym ar  
gyfer rhieni**



## Pwrpas y canllaw hwn

Fe fydd angen gofal iechyd tymor byr ar y rhan fwyaf o ddysgwyr ar ryw adeg. Gallai hyn gynnwys cyflyrau fel haint ar y frest neu asgwrn wedi'i dorri. Yn achos nifer fach o ddysgwyr, fe all eu hanghenion gofal iechyd gael effaith am gyfnod hirach, gan olygu bod angen sicrhau bod cymorth ar gael. Pwrpas y canllaw cyflym hwn ydy helpu rhieni\* i chwarae rhan lawn wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â sut mae eu plentyn yn cael ei gefnogi yn yr ysgol. Dylai'r cymorth hwn sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn gallu cael addysg lawn, gan gynnwys mynd ar dripiâu a chael addysg gorfforol.

\*Pan fyddwn yn cyfeirio at rieni, rydym yn golygu rhieni a gofalwyr.

## Cydweithio fel tîm

I rai dysgwyr, efallai fod cefnogi eu hanghenion gofal iechyd nhw mor syml â'u helpu nhw i gymryd cwrs o wrthfotigau, i eraill efallai ei fod yn fwy cymhleth.

Beth bynnag ydy anghenion gofal iechyd y dysgwr, mae'n bwysig bod y rhieni, yr ysgol a'r dysgwr, yn gweithio fel tîm. Ar gyfer rhai anghenion gofal iechyd, fe allai'r tîm gynnwys nyrs yr ysgol a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Pan yn gweithio fel tîm, mae'n bwysig gwrandao ar ddymuniadau a chynghor y dysgwr, y rhieni a phawb arall dan sylw. Os oes angen help a chefnogaeth arnoch chi, y rhiant, yna cysylltwch â'r elusen neu'r grŵp rhieni priodol a'u cynnwys yn rhan o'r tîm.

Rhestrir nifer o grwpiau rhieni ac elusennau yn y canllaw yn:

[learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy](https://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy)

## Egwyddorion sylfaenol cydweithio

**Yr egwyddorion sylfaenol sy'n arwain y dull gwaith tîm hwn yw:**

- mae'n rhaid mai beth sydd orau i'r plentyn ydy'r ystyriaeth bennaf bob amser wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y plentyn
- mae'n rhaid i'r rhieni a'u plentyn fod yn ganolog wrth wneud penderfyniadau, a chwarae rhan wrth gynllunio'r holl ofal iechyd
- mae'n rhaid i ysgolion ddarparu'r holl bolisïau perthnasol i'r rhieni a'r plentyn, a chymryd yr amser i'w hesbonio
- dylai ysgolion ddarparu pwynt cyswllt canolog i'r rhieni a'r plentyn ar gyfer rheoli anghenion gofal iechyd
- rhaid i ysgolion beidio ag anwybyddu barn plant neu rieni, nac anwybyddu tystiolaeth neu farn gofal iechyd
- rhaid glynu at y penderfyniadau a amlinellir yng nghynllun gofal iechyd y plentyn os nad oes rheswm da iawn dros beidio â gwneud hynny.



# Sut ddylai'r ysgol gefnogi rhieni a'u plant – a beth ddylai rhieni ei wneud?

## Dylai'r ysgol:

- helpu rhieni/plant i fod yn ymwybodol o'u hawliau/cyfrifoldebau
- trefnu cyfarfod i'r staff, y rhieni, y plentyn a'r clinigwyr priodol, i benderfynu a oes angen cynllun gofal iechyd unigol
- gweithio'n unol ag egwyddorion cynwysoldeb a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a pheidio byth â gwrthod llais go iawn i blant ynglŷn â sut maen nhw'n cael eu cefnogi yn yr ysgol
- deall ei rôl yn cefnogi'ch plentyn a sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol
- cynllunio gwersi a gweithgareddau mewn ffordd sy'n caniatáu i blant ag anghenion gofal iechyd gymryd rhan lawn
- bob amser rhoi gwybod i'r rhieni am unrhyw newid yn iechyd neu ymddygiad eu plentyn a sut mae hynny'n effeithio ar addysg eu plentyn.

## Fel rhiant mae'n rhaid i chi:

- roi gwybodaeth am iechyd eich plentyn i'r ysgol, gan gynnwys unrhyw ganllawiau ynglŷn â meddyginiaethau ac unrhyw driniaeth arall gan weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd
- rhoi meddyginiaethau perthnasol nad ydy'r dyddiad wedi dod i ben, wedi'u labelu'n gywir, gyda chyfarwyddiadau ynglŷn â sut i'w rhoi a'r dos wedi'u hysgrifennu arnyn nhw
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am iechyd eich plentyn i'r ysgol, gan gynnwys newidiadau i'w feddyginiaeth, y dos neu sut i'w rhoi
- sicrhau bod modd cysylltu ag oedolyn enwebedig bob amser a bod pob ffurflen angenrheidiol wedi'i llenwi ac wedi'i llofnodi
- rhoi gwybod i'r ysgol os oes gan eich plentyn/os ydy'ch plentyn wedi bod â chlefyd neu gyflwr heintus pan oedd yn bresennol.



## Cynlluniau gofal iechyd unigol

Mae cynllun gofal iechyd unigol yn manylu ar yr hyn sydd ei angen i gefnogi dysgwr ag anghenion gofal iechyd. Does dim angen cynllun gofal iechyd unigol ar bob plentyn ag anghenion gofal iechyd. Fodd bynnag, pan fydd gan blentyn anghenion gofal iechyd parhaus neu gyfnodol, neu lle mae yna risg uchel o ymyrraeth frys, yna efallai fod angen cynllun gofal iechyd unigol.

Does dim rhaid i'r cynlluniau gofal iechyd unigol fod yn gymhleth, ond fe ddylen nhw gynnwys yr wybodaeth allweddol a'r camau gofynnol i gefnogi dysgwr ag anghenion gofal iechyd yn effeithiol.

Trwy weithio gyda'r ysgol a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, mae'n rhaid i'r rhieni a'r plentyn chwarae rhan lawn wrth greu'r cynllun gofal iechyd unigol.

Dylai'r cynllun gofal iechyd unigol fod ar gael yn rhwydd i bawb sydd angen cyfeirio ato, ond ar yr un pryd rhaid parchu preifatrwydd/cyfrinachedd i'r lefelau gofynnol.



### Hawliau'r dysgwyr

- Mae gan ddysgwyr yr hawl i ddweud eu dweud ynglŷn â phopeth sy'n effeithio arnyn nhw, ac i gael pobl i gymryd eu barn o ddifrif.
- Mae gan ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd hawl i gael addysg lawn.
- Mae gan ddysgwyr hawl i gael gwybodaeth am eu hiechyd a'u lles, a hawl i gael llais ynglŷn â'r cymorth y maen nhw'n ei gael tra'u bod nhw yn yr ysgol.

### Darparu meddyginiaeth

Rhaid i rieni ddarparu'r feddyginiaeth y cytunwyd arni yn y cynllun gofal iechyd unigol. Rhaid iddi:

- beidio â bod â'i dyddiad wedi dod i ben
- bod wedi'i labelu'n gywir ag enw'r plentyn
- cynnwys cyfarwyddiadau am y dos, sut i'w rhoi a sut i'w storio
- bod yn ei chynhwysydd gwreiddiol – ar wahân i bwmp neu bin inswlin.

Rhaid i feddyginiaethau heb fod ar bresgripsiwn fod fel yr uchod heblaw bod rhieni'n gallu rhoi cyfarwyddiadau.

# Rhannu'r wybodaeth am ofal iechyd eich plentyn

Gall rhannu gwybodaeth feddygol fod yn fater sensitif. Mae'n rhaid i chi a'ch plentyn fod yn hapus ynglŷn â phwy y mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu â nhw, a sut (hysbysfyrdau, mewnrwyd, ac ati) y bydd hyn yn digwydd. Os nad ydych chi'n hapus, gallwch chi atal rhannu'r wybodaeth, ond fe allai hyn effeithio ar gymorth eich plentyn, felly mae'n bwysig siarad â'r ysgol a dod i gytundeb cadarnhaol.

## Mae'n annerbyniol:

- rhwystro plentyn ag anghenion gofal iechyd rhag mynd i'r ysgol os na fydd yn debygol o achosi niwed i'r plentyn, neu eraill, oni nodir hyn yn ei gynllun gofal iechyd unigol
- disgwyl i rieni fynd ar dripiâu ysgol neu i weithgareddau oddi ar safle'r ysgol, i roi meddyginiaeth neu roi cymorth i'w plentyn, gan gynnwys ei gynorthwyo i fynd i'r toiled
- creu rhwystrau fel na all plentyn gymryd rhan ym mhob agwedd o'i addysg, gan gynnwys tripiâu, trwy ddisgwyl i riant fynd gyda'r dysgwr
- rhwystro plant rhag cael gafael yn eu hanadlydd/feddyginiaeth arall
- rhwystro plant rhag yfed, bwyta neu gael seibiant i fynd i'r toiled neu seibiant o fath arall, pryd bynnag y bo angen er mwyn rheoli eu hanghenion gofal iechyd, neu ofyn i blentyn adael y gweithgaredd/dosbarth os oes angen cymryd meddyginiaeth sydd ddim yn bersonol neu os oes angen iddyn nhw fwyta rhywbeth yn unol â'u hanghenion iechyd.

## Pan na allwch chi gytuno

Os nad ydych chi'n fodlon â threfniadau'r ysgol, gallwch chi gwyno. Gofynnwch am gopi o weithdrefn gwyno'r ysgol, ac os ydych chi dal yn anhapus, cysylltwch ag adran addysg eich awdurdod lleol.

## Diolch am ddarllen hwn

Mae'r canllawiau llawn ar y wefan yma:  
[learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy](https://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy)

**OGL** © Hawlfraint y Goron 2018  
ISBN digidol 978 1 4734 9875 4  
WG33677

